**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

## ADRODDIAD CYNNYDD AR DDATBLYGU "YMESTYN HAWLIAU: CEFNOGAETH I BOBL IFANC YNG NGHYMRU"

### Diben

1. Rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar ddatblygiadau diweddar, ac yn benodol ar faterion gweithredu sy'n dod i'r amlwg.

### Amseru

2.Trafodwyd y ddeddfwriaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf 2002 a daw i rym ym mis Medi, 2002.

### Y Cefndir

3. O ganlyniad i'r nifer fawr o ymarferwyr a sefydliadau partneriaid a gyfrannodd at ddatblygu'r fersiwn ymgynghorol o'r Cyfarwyddyd a'r Canllawiau a welodd y Pwyllgor fis Rhagfyr diwethaf, dim ond mân newidiadau sydd yn y fersiwn derfynol. Atodir y ddogfen derfynol fel Atodiad A. Mae'r ddogfen yn cael ei hargraffu ar hyn o bryd a chaiff ei dosbarthu yn ddiweddarach yn y mis.

4. Bu'r Tîm Polisi Ieuenctid yn weithgar iawn dros y misoedd diwethaf i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i weithredu'r ddeddfwriaeth. Mae swyddogion o'r tîm wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o weithredu fel swyddogion cyswllt i nifer fechan o Bartneriaethau Pobl Ifanc. Cafodd hyn y fantais ddeublyg o ddarparu ffynhonnell benodedig o arweiniad a chefnogaeth o fewn Llywodraeth y Cynulliad i'r swyddogion lleol sy'n cydlynu'r gwaith, tra ar yr un pryd, ganiatâu i'r Tîm fonitro datblygiadau a nodi anawsterau posibl sy'n codi a gweithio arnynt i'w lleddfu. Mae hefyd wedi cynorthwyo i feithrin ymhellach yr ysbryd o gydweithio ac ymddiriedaeth rhwng y Cynulliad a'i bartneriaid lleol a sefydlwyd wrth gyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol ac sydd wedi nodweddu mentrau y Tîm Polisi Ieuenctid wedi hynny.

5. Mae'r Tîm Polisi Ieuenctid hefyd wedi cyfrannu at yr ymdrech i gasglu ynghyd yn rheolaidd y sefydliadau sy'n cyfrannu at ddatblygu polisi a chefnogaeth i bobl ifanc trwy Gymru gyfan. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cynnwys: Asiantaeth Ieuenctid Cymru, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canllaw Ar-lein, Llais Ifanc, Plant yng Nghymru, Gyrfa Cymru ac ELWa. Bu'r trafodaethau hyn o gymorth i sicrhau cysondeb ac i gydlynu'r gweithgareddau yn genedlaethol, ac maent eisoes wedi arwain

at welliannau mewn cyfathrebu rhyng-asiantaethol. Mae rhai blaenoriaethau cyffredin yn awr yn dechrau amlygu o ran cydlynu'r gwaith o ddatblygu agenda "Ymestyn Hawliau" ymhellach trwy Gymru.

6. Mae'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn uchelgeisiol, ond mae tystiolaeth bod llawer o frwdfrydedd ac ymrwymiad i weithredu'r agenda o fewn awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol, a phartneriaid mewn sefydliadau ac asiantaethau statudol eraill. Mae'r datblygiadau yn y rhwydwaith i weithredu'r cynllun wedi dibynnu nid yn unig ar barodrwydd yr amrywiol bartïon ond hefyd ar ffactorau ymarferol fel y profiad o weithio mewn partneriaeth yn yr ardal a pha mor gyflym y caiff staff allweddol eu recriwtio/penodi i ddatblygu'r fenter.

7. Mae Atodiadau B a C o'r adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad mwy manwl o gynnydd a materion sy'n codi o fewn Partneriaethau Pobl Ifanc lleol a blaenoriaethau lleol a ddaw i'r amlwg. Yn anorfod, ni all hyn fod yn llawer mwy na chiplun ar hyn o bryd. Mae'r gwaith yn datblygu'n gyflym, ac felly bwriadwn lunio adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor mewn oddeutu 6 mis, ac erbyn hynny mae disgwyl y bydd gennym syniad llawer gwell o'r sefyllfa trwy Gymru. Er gwaethaf y datblygiadau i sefydlu'r rhwydwaith i weithredu "Ymestyn Hawliau" mae'n bwysig cofio bod ein nod o gael newidiadau pell-gyrhaeddol a sylfaenol i'r ffordd y caiff pobl ifanc eu hystyried a'u trin gan gymdeithas yn gyffredinol, gan gynnwys nifer o'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ac yn rhoi cefnogaeth iddynt, yn brosiect tymor hir, strategol, fydd yn cymryd amser i'w wireddu'n llawn.

**Goblygiadau ariannol**

8. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn codi o'r Ddeddfwriaeth. Mae Grant Cynnal Refeniw eleni yn cynnwys codiad o £1.75 miliwn, (sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol o 87.5%) i gyrfhau gwasanaethau sy'n rhoi cefnogaeth i bobl ifanc. Er na chlustnodwyd setliad cyffredinol, bydd y Cynulliad yn disgwyl gweld gwelliant yn ansawdd a chyrhaeddiad gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol ym mhob awdurdod lleol, sy'n well na'r ddarpariaeth a fyddai ar gael ar gyfer hyn fel arall. Fel rhan o'm cynlluniau gwariant cyffredinol ar gyfer addysg a dysgu gydol oes dros y dair blynedd nesaf fe fyddaf yn ystyried codi'r Grant Cynnal Refeniw ymhellach er mwyn cefnogi awdurdodau sy'n datblygu'r cynllun "Ymestyn Hawliau". Caiff hyn ei ystyried gyda'r blaenoriaethau eraill pan fyddaf yn paratoi fy nghais yn y cylch cynllunio cyllideb nesaf.

9. Ar ben hyn, disgwylir i Bartneriaethau Pobl Ifanc nodi'r arian sydd ar gael iddynt o amrywiol ffynonellau eraill, a chydweithio i wneud y defnydd gorau ohono i gyflawni yr amcanion cyffredinol pwysicaf y cytunwyd arnynt.

**Cydymffurfio**

10. Mae gan y Cynulliad ddyletswydd o dan Adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i hyrwyddo

addysg i bobl Cymru. Mae adrannau 40 ac 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r swyddogaeth honno. Caiff y pwerau hyn eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Ystyriaethau "Cynllun i Gymru 2001"**

11. Nid oes gan weithredu deddfwriaeth a sefydlu'r Partneriaethau Pobl Ifanc oblygiadau uniongyrchol i ddatblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, fe fyddant yn y diwedd yn arwain at welliant yn y ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer holl bobl ifanc Cymru, a thrwy hynny hybu amcanion y Cynulliad o leihau anfantais cymdeithasol a gwella cyfle cyfartal i bawb.

**Swyddog Cyswllt**


Suzanne Chisholm

Tîm Polisi Ieuenctid

029 2082 6056

e-bost : suzanne.chisholm@wales.gsi.gov.uk


**Nid yw Atodau B a C ar gael yng Nghymraeg ond gellir gweld y fersiwn Saesneg trwy glicio** yma